## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Rhuthun ar 26ain Gorffennaf 2006 am 9.30am.

## PRESENNOL

Y Cynghorwyr: S Thomas (Cadeirydd), R E Barton, J Butterfield, J Chamberlain-Jones, J M Davies, M Ll Davies, S A Davies, G C Evans, H H Evans, S Frobisher, I M German, M A German, D Hannam, T K Hodgson, M M Jones, G M Kensler, P W Owen, N P Roberts, D A J Thomas, M A Webster, C H Williams ac R Ll Williams.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Arweinydd Tîm (Mân Geisiadau a Chydymffurfio), Arweinydd Tîm (Ceisiadau Mawr), Arweinydd Tîm (Cefnogaeth) (G Butler), Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams) a Bryn Jones (Cyfieithydd).

## DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr: J Smith, J Thompson-Hill, N Hugh-Jones, R Bartley ac E R Jones.

**1. MATERION BRYS**

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyhoedd a Chynghorwyr a Swyddogion o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a oedd ar ymweliad i arsylwi ar siarad cyhoeddus.

**2.**

(i) **Caniatâd**

| **Cais Rhif.** | **Disgrifiad a Lleoliad** |
|---|---|
| 02/2006/0734/PO | (Ymneilltuodd y Cynghorydd S Davies o'r siambr yn ystod y drafodaeth ar y cais hwn.) Ar ôl ystyried cynllun a gylchredwyd yn dangos hanes cynllunio a ffin datblygiad a llythyr ychwanegol yn gosod cyflwyniad oddi wrth Gyngor Tref Rhuthun. Datblygu 0.08ha o dir drwy godi un annedd, darparu mynediad a gosod cyfarpar trin preifat (cais amlinellol). |

**Tir yn Rhoslwyn Llanfwrog Ruthun**
Caniatawyd yn amodol ar: *Amod Ddiwygiedig* 5. Dileu/cwblhau'r datblygiad /dechrau'r datblygiad/y tymor plannu a hadu nesaf".

| | |
|---|---|
| 03/2006/0260/PF | Codi garej ar wahân.<br>**Tir yn (rhan o ardd) Ridgeway Hill Street, Llangollen**<br>CANIATAWYD |
| 05/2005/1463/PF | Dymchwel garejys, codi annedd ar wahân a newid mynediad presennol i gerbydau.<br>**Tir ger The Cottage Penybryn Corwen**<br>Caniatawyd yn amodol ar: *Amod Ychwanegol* Rhif10 Cyn dechrau unrhyw waith ar y safle, gan gynnwys dymchel, rhaid cynnal arolwg ymchwilio'r tir er mwyn sicrhau sefydlogrwydd y tir ar gyfer y datblygiad arfaethedig ac effeithiau posibl ar y tir o'i gwmpas. Bydd yr arolwg yn cael ei gyflwyno ar gyfer argymhellion neu ddarganfyddiadau gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a bydd yr argymhellion neu ddarganfyddiadau hynny y cytunir arnynt ar ôl hynny yn cael ei gweithredu'n llawn fel rhan o'r datblygiad.<br><br>*Rheswm*: Er mwyn sicrhau datblygiad diogel a boddhaol er lles amwynder y gymdogaeth. |
| 05/2006/0445/PO | Datblygu 0.06 hectar o dir drwy godi 1 annedd (Cais amlinellol)<br>**Tir ger New Inn Terrace, Glyndyfrdwy, Corwen**<br>Caniatawyd yn amodol ar: *Amod Ddiwygiedig:* Dileu Amod 4. |
| 22/2006/0723/PF | **Siaradwr o blaid: Alan Whitley**<br>Ar ôl ystyried un llythyr yn gosod cyflwyniad oddi wrth: W M Jones a Talog Davies (ar ran D H Williams) ar y cynlluniau diwygiedig. Codi 1 byngalo dormer ar wahân yn ymgorffori ymestyn mynediad y dramwyfa bresennol a thirlunio a gwaith traenio cysylltiedig. **Tir cyfagos i'r Hen Ysgubor Gellifor Rhuthun**<br>CANIATAWYD |

43/2003/1360/PR

**Siaradwr o blaid: Emma Beardmore (Tesco)**
Datganodd y Cynghorydd Cefyn Williams ddiddordeb yn y cais canlynol ac ymneilltuodd o'r Siambr pan oedd y cais dan ystyriaeth. Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol "dim gwrthwynebiad" oddi wrth; Gyngor Tref Prestatyn. Cyflwynwyd manylion y cynllun, ymddangosiad allanol a thirweddiad y siop fwyd a'r orsaf betrol yn unol ag amod rhif 1 caniatâd cynllunio amlinellol Cyfeirnod 43/1997/0910/PO (Materion wrth gefn)
**Tir yn y Stryd Fawr Prestatyn**
Caniatawyd yn amodol ar: *Amod Ychwanegol:* Rhif 4 Er gwaethaf y manylion a ddangosir ar y cynllun a gymeradwywyd, ni chaniateir unrhyw ddatblygiad ar adeilad y siop nes bydd cadarnhad ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ei roi i liw haenau'r to, a rhaid i'r to gael ei gwblhau yn unol â'r manylion a gymeradwyir.

*Rheswm*: Er lles amwynder gweledol. (Aelodau Lleol i'w hysbysu pan dderbynnir y manylion diwygiedig.)

43/2006/0588/PO

**Siaradwr o blaid: Emma Beardmore**
Datganodd y Cynghorydd Cefyn Williams ddiddordeb yn y cais canlynol ac ymneilltuodd o'r Siambr pan oedd y cais dan ystyriaeth. Datblygu 0.35 hectar o dir drwy ddymchwel adeilad/annedd presennol; codi swyddfa llawr cyntaf 1,208 metr sgwâr ac adeiladu mynediad newydd i gerbydau (cais amlinellol).
**Camelot Creation a Rhif 23 Sandy Lane Prestatyn.**
CANIATAWYD

43/2006/0645/PF

Amnewid 6 antenna sector am 3 antena 3 UMTS a 3 antena pegynol deuol.
**Gorsaf Trosglwyddyddion Gwaenysgor, Y Rhyl**
CANIATAWYD

**:**

| | |
|---|---|
| 45/2006/0551/PF | **Siaradwr o blaid: Roly Schwartz (Ymgeisydd)**<br>Ar ôl rhoi ystyriaeth i un cyflwyniad ychwanegol mewn llythyr oddi wrth: Swyddog Mynediad Corfforaethol. Newid deunydd o swyddfeydd Dosbarth B1 i swyddfeydd Dosbarth D1 a chanolfan dydd yn darparu hyfforddiant, golchi, cyfleusterau bwyd twym a gofal iechyd cynradd.<br>**Adeiladau Clwyd, Stryd Clwyd, Y Rhyl**<br>Caniatawyd yn amodol ar: *Amod Ychwanegol:* Rhif 4 Ni chaniateir gwerthu bwyd poeth i'w fwyta y tu allan i'r adeilad sy'n derbyn y caniatâd hwn.<br>*Rheswm:* Er mwyn sicrhau bod y cyfleustra bwyd poeth yn ategol i brif gyfleuster y ganolfan dydd ac y bydd er lles staff a defnyddwyr y ganolfan yn unig. |
| 45/2006/0564/PF | Newidiadau i gynllun to a ganiatawyd dan Rhif Cod 45/2005/1414/PF a darparu mynediad newydd i gerbydau, cwympo 2 goeden sy'n destun gorchymyn cadwraeth a chodi storfa meter.<br>**45 Ffordd Brighton, Y Rhyl**<br>Caniatawyd yn amodol ar: *Amod Ddiwygiedig:*<br><br>2. Ni ellir dechrau ar y gwaith nes y ceir manylion am y coed fydd yn eu lle gan gynnwys rhywogaeth, maint a'r lleoliad arfaethedig a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br><br>3. Rhaid plannu'r coed fydd yn eu lle yn y tymor plannu cyntaf ar ôl torri'r coed. Cedwir y coed yn ardal G15 y cynllun a atodir ar gynllun Cyngor Dosbarth Trefol Rhuddlan 1951. |
| 45/2006/0583/PF | **Siaradwr o blaid: Alyn Edwards**<br>(Datganodd y Cynghorwyr Nigel Roberts, Gwilym Evans a Sharon Frobisher ddiddordeb yn y cais canlynol ac ymneilltuo o'r Siambr pan oedd y cais dan ystyriaeth.)<br>Estyniadau, newidiadau ac ail-lunio'r orsaf dân presennol i greu cyfleusterau |

cymunedol a newidiadau i'r mynediad presennol i gerbydau.
**Pencadlys Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru Rhyl, Ffordd yr Arfordir, Y Rhyl**
Caniatawyd yn amodol ar: *Amod Ddiwygiedig:*
5. Dileu "bydd" cynnwys "bydd rhaid"
"………oni cheir cytundeb ysgrifenedig i wneud yn wahanol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol".

45/2006/0592/PF

Codi estyniad un llawr gyda tho ar oleddf i'r ystafell gyffredin ar ochr yr adeilad a chadw'r ddihangfa dân presennol.
**Cartref Gofal Canterbury, 77 Ffordd Dyserth, Y Rhyl**
Caniatawyd yn amodol ar: *Amod Ychwanegol::*
3. Bydd y grisiau / dihangfa dân allanol yn cael ei lliwio'n ddu o fewn i 1 mis o ddyddiad y caniatâd hwn a'i gadw felly ar ôl hynny.
*Rheswm*: Er lles amwynder gweledol y lleoliad a'r cyffiniau.

(ii) **Caniatâd Adeiladau Cofrestredig**
(yn amodol ar gyfeirio at Cadw)

12/2006/0530/LB

**Siaradwr o blaid:: Mr Lightfoot**
Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn gosod cyflwyniad oddi wrth: Paul Draycott (Master Thatcher).
Atgyweirio ac amnewid strwythur y porth presennol gyda chynhalbyst derw a tho llechi yn lle gwellt (Cais Adeilad Cofrestredig)
**Coed y Foel, Derwen, Corwen**
CANIATAWYD ar yr amod bod y cais yn cael ei gyfeirio at CADW ac na fyddant yn codi unrhyw wrthwynebiad.

(iii) **Grant**
(Yn groes i Argymhellion y Swyddogion)

10/2006/0203/PO

**Siaradwr o blaid:: D Haston**
Datblygu 0.07 hectar o dir drwy godi annedd i weithiwr amaethyddol a darparu

cyfarpar triniaeth breifat (cais amlinellol).

**Ysgubor Uchaf, Bryneglwys**
CANIATAWYD ar yr amod: Swyddog Monitro i roi cyngor a yw hwn yn wyriad sylweddol ac o ganlyniad yn gofyn am benderfyniad y Cyngor Llawn.

Cymerwyd y penderfyniad YN GROES i Argymhellion y Swyddogion am y rheswm canlynol: Ystyriai'r Cynghorwyr ei fod yn cydymffurfio gyda pholisïau HSG 6 ac SPG 1.

(iv) **Gohiriwyd**
(am y rhesymau a nodir)

45/2006/0240/PF

Yn dilyn ystyriaeth o newid – 6 o unedau fforddiadwy, nid 7 fel y nodwyd. Codi adeilad pedwar llawr i ddarparu 9 uned annedd hunangynhwysol.
**Y tu cefn i Palace Apartments,**
**83/84 West Parade, Y Rhyl**
GOHIRIWYD er mwyn ymgynghori ar gynlluniau diwygiedig a dderbyniwyd (aelodau lleol i gael eu hysbysu am unrhyw ddatblygiad)

46/2005/0918/PO

Datblygu 3.9 hectar o dir ar gyfer swyddfa/diwydiant ysgafn (Dosbarth B1) a darparu mynediad newydd i gerbydau/cerddwyr (cais amlinellol).
**Cyn gaeau chwarae Pilkington, Ffordd Glasgoed, Llanelwy**
GOHIRIWYD er mwyn cael eglurhad ar y cynigion yn ymwneud â mynediad.

46/2006/0418/PF

Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn gosod cyflwyniad oddi wrth: Bennaeth Trafnidiaeth a Seilwaith. Newidiadau mewnol ac allanol i annedd, codi adeiladwaith yn y cefn a newidiadau i siop gyffiniol er mwyn creu mynediad.
**Elwy Bank, Y Stryd Fawr, Llanelwy**
GOHIRIWYD ar gyfer ymgynghori pellach ar faterion parcio a phriffyrdd gyda Pheirianwyr Priffyrdd.

| | |
|---|---|
| 46/2006/0419/LB | Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn gosod cyflwyniad oddi wrth: Trafnidiaeth a Seilwaith. Newidiadau mewnol ac allanol i annedd, ailadeiladu'r adeiladwaith yn y cefn a newidiadau i siop gyffiniol er mwyn creu mynediad (Adeilad Cofrestredig).<br>**Elwy Bank, Y Stryd Fawr, Llanelwy**<br>GOHIRIWYD er mwyn cynnal trafodaethau gydag Adran y Priffyrdd ar y cais cynllunio. |

## 3. ADOLYGIAD O DDULLIAU GWEITHREDU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd (Cylchredwyd ymlaen llaw)

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.*

(Hoffai'r aelodau i eitemau er gwybodaeth yn unig gael eu dynodi felly yn eglur ar yr agenda).

## 4. DIWEDDARIAD GORFODAETH

Cyflwynwyd – Adroddiad ar faterion Gorfodaeth, er gwybodaeth.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.*

## 5. DIWEDDARIAD APELIADAU

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn rhoi manylion am apeliadau diweddar a rhai sydd ar y gweill er gwybodaeth.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.*

## 6. DYDDIAD YMWELIAD SAFLE

Cyflwynwyd - Adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn hysbysu'r aelodau o ddyddiad ymweliadau safle os bydd eu hangen cyn cyfarfod nesaf y pwyllgor. Penderfynwyd cynnal Ymweliadau Safle ar ddydd Iau, 31ain Awst 2006.

## 7. RHESTR O GEISIADAU Y DELIWYD Â HWY DRWY BWERAU DIRPRWYOL

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd ei adroddiad ysgrifenedig (a gylchredwyd ymlaen llaw) o'r ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo drwy awdurdod dirprwyol rhwng a .

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn yr adroddiad.*

**8. <u>CEISIADAU CYNLLUNIO YN YMWNEUD Â DATBLYGIAD TYRBINAU GWYNT YN WERN DDU, GWYDDELWERN</u>**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd a gylchredwyd yn ystod y cyfarfod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am yr apeliadau a gyflwynwyd gan Tegni Cyf.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn yr adroddiad er gwybodaeth i'r aelodau.*

Terfynwyd y cyfarfod am 12.20